Y BUSNES O AILGYLCHU THE BUSINESS OF RECYCLING WRAP CYMRU

## Y Busnes o Ailgylchu – Gweminarau

## Sector Adeiladu a Dymchwel 12 Tachwedd 2024 10:30 am

### Cwestiynau ac Atebion

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno atebion WRAP Cymru i'r cwestiynau a ofynnwyd gan fynychwyr yn ystod y gweminar Sector Adeiladu a Dymchwel.

**Cod Ymarfer –** Casglu Deunyddiau Gwastraff ar wahân i Ailgylchu: Cod Ymarfer Cymru | LLYW.CYMRU
Canllawiau y Busnes o Ailgylchu Cymru ar gyfer holl weithleoedd (wrapcymru.org.uk)

| | |
|---|---|
| A ellir gwahanu ailgylchu mewn bagiau bin plastig clir a'i roi ar ben sgip i'w gasglu? (diwydiant adeiladu)<br><br>Allech chi labelu'r bagiau clir gyda phin marcio? | Byddai'n dderbyniol gosod nifer fach o fagiau gyda deunyddiau ailgylchadwy ar ben sgip i'w casglu, cyn belled â bod hyn wedi'i gytuno gyda'ch casglwr gwastraff a'u bod yn gallu casglu'r ffrydiau gofynnol ar wahân. Fodd bynnag, rhaid i chi sicrhau na all y deunydd sydd yn y bagiau arllwys na gollwng a'i fod wedi'i storio'n ddiogel yn y bag, h.y. peidiwch â rhoi deunyddiau i'w hailgylchu mewn bagiau plastig meddal ar ben sgip sydd ag ymylon miniog.<br><br>Sicrhewch fod unrhyw fagiau a roddir ar sgip i'w casglu wedi'u labelu'n glir. Gellid gwneud hyn gan ddefnyddio'r eiconau sydd ar gael i'w lawrlwytho o wefan y Busnes o Ailgylchu |
| A ellir rhoi gwastraff bwyd mewn bin gwastraff cyffredinol?<br>Beth ddylid ei wneud â gwastraff bwyd dros 5kg? | Gall busnesau sy'n cynhyrchu llai na 5kg o fwyd ddewis cael casgliad gwastraff bwyd o hyd, ond nid yw'n ofynnol. Os ydych yn cynhyrchu llai na 5kg yr wythnos ac nad oes gennych gasgliad gwastraff bwyd, dylid rhoi bwyd yn y bag neu'r bin ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu.<br><br>Os ydych yn cynhyrchu mwy na 5kg o wastraff bwyd mewn cyfnod o saith diwrnod, bydd angen i chi drefnu casgliad gwastraff bwyd ar wahân.<br><br>Os ydych yn cynhyrchu llai na 5kg o fwyd bob 7 diwrnod ar hyn o bryd, yna bydd angen i chi fonitro hyn a chadw golwg rhag ofn i'ch gweithgareddau newid. Gweler adrannau 7.24 a 7.25 y Cod Ymarfer. |
| Ar gyfer safleoedd adeiladu sy'n newid yn ddyddiol ac sy'n cynnwys fan lles, gyda lle cyfyngedig, sut byddai staff yn gwahanu ac yn ailgylchu? | Tybir y byddai'r gwastraff hwn a gynhyrchir yn y fan lles yn gysylltiedig â phecynnau bwyd staff ac felly gellid ei roi mewn cynhwysydd/bag ar gyfer metelau, plastig a chartonau. Os defnyddir cynwysyddion gwydr, byddai angen eu casglu ar wahân mewn ail gynhwysydd/bag.<br>Byddech hefyd angen cynhwysydd/bag ar gyfer gwastraff cyffredinol. Byddai angen i chi fonitro faint o wastraff bwyd fyddai'n cael ei gynhyrchu gan y gallai hyn fod yn fwy na'r terfyn 5kg dros gyfnod o 7 diwrnod. |

| | |
|---|---|
| | Tybir hefyd y byddai'r deunydd hwn yn cael ei gludo'n ôl i'r cwmni adeiladu lle byddai'r holl wastraff a gynhyrchir wedyn yn cael ei symud i gynwysyddion gwastraff ac ailgylchu mwy. |
| Ar gyfer deunydd wedi'i falu (agregau/cynllunio), a yw'r rheoliadau newydd yn cynnwys gwybodaeth am beth i'w wneud / sut i ailgylchu? | Gan nad yw’r rhain yn ddeunyddiau tebyg i’r hyn a gynhyrchir mewn cartrefi, nid ydynt wedi’u cynnwys yn y gofynion i gasglu ar wahân.<br><br>Os oes gennych lawer iawn o wastraff o ddeunydd arbenigol penodol, efallai y bydd eich casglwr gwastraff yn gallu dod o hyd i ffordd o'i ailgylchu, ond nid yw hyn yn ofyniad dan y rheoliadau. |
| Os ydym yn is-gontractwr ar y safle hefyd, a ydym yn defnyddio'r hyn sydd gan y Prif Gontractwr yn unig? Beth ddylem ei wneud os na chaiff unrhyw ddarpariaethau eu gwneud?<br><br>Cyfrifoldeb y Prif Gontractwr yw hyn yn gyffredinol, ond os ydyn nhw’n gwrthod, a oes angen i ni eu riportio nhw? | Byddai angen i'r rhai sy’n ymwneud â’r gwaith gytuno ar bwy sy’n gyfrifol am gydymffurfio ar y safle ond yn gyffredinol byddem yn ystyried mai’r prif gontractwr sy'n gyfrifol am y safle yw’r cynhyrchydd gwastraff, oni bai bod hyn wedi'i gytuno fel arall. Dylid cynnwys hyn yn eich contractau.<br><br>Mae Adran 5.10 o'r Cod Ymarfer yn cynnwys mwy o fanylion ynghylch pwy sy'n cael ei ystyried fel deiliad y safle, ond byddai'n cael ei benderfynu fesul achos.<br><br>Gellir rhoi gwybod i CNC am unrhyw ddiffyg cydymffurfio – Cyfoeth Naturiol Cymru / Rhoi gwybod am ddigwyddiad |
| Oes rhaid i cael prawf bod y cludwr gwastraff yn ailgylchu eich gwastraff? h.y. os ydych yn rhoi deunydd ailgylchu mewn bagiau clir ar sgip cyffredinol | Mae Adran 7.21 o'r Cod Ymarfer yn amlinellu'r cofnodion y mae'n ofynnol i chi eu cadw.<br>Mae hyn yn cynnwys gofynion presennol o dan y Ddyletswydd Gofal sy'n ei gwneud yn ofynnol i chi gynhyrchu a chadw nodiadau trosglwyddo gwastraff a fydd yn dangos sut, pryd, a phwy gasglodd y gwastraff a pha fath o wastraff a gasglwyd.<br>Rhaid cadw’r cofnodion hyn am 2 flynedd. |

**Commented [GH1]:** I wondered if 'planning' here on Eng should be 'planing' - as it's discussing fine milled materials - but I could be way off!